# Saffari Bywyd Gwyllt

## Ffocws y Pwnc

Pethau byw a'u cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid a gweithio'n wyddonol.

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn annog plant i weld safleoedd claddu fel llecynnau pwysig i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Maent yn annog y plant i archwilio gwahanol gynefinoedd ac edrych ar y safleoedd claddu o onglau gwahanol. Drwy ymchwilio i fân-drychfilod, cynefinoedd a choed, a hefyd rhywogaethau Prydeinig pwysig fel Draenogod, Cacwn, Cennau a Choed Yw, bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu sgiliau arsylwi a chofnodi a hefyd technegau gwaith maes syml.

Dyma'r gweithgareddau: Coed Cyfareddol, Gwarcheidwaid Gwyrdd, Mania Mân-drychfilod, Canfod Cynefin, Canfod Cennau, Creaduriaid Cartrefol - Draenogod, Cacwn, Nadroedd Defaid, Gwenoliaid Duon.

## CSBC, CA1 a CA2

**Sgiliau Allweddol**

Ymchwilio
Arsylwi
Cwestiynu
Dosbarthu
Adnabod
Cofnodi
Mesur

**Geiriau Allweddol**

Cynefin
Amodau
Mân-drychfil
Cen

## Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth ac ABaCh.

**CSBC**

Deall y Byd
Y Byd



**Dyfarniad John Muir**

***Darganfod***
***Archwilio***
***Gwarchod***
***Rhannu***





Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynnau canlynol:

***Enfys*** – Edrych a Dysgu

***Beavers*** – Gweithgaredd Archwilio

***Brownies*** – Yr Amgylchedd, Ffrind i Anifeiliaid, Ymchwilydd Gwyddoniaeth, Y Tymhorau, Bywyd Gwyllt

***Cybiau*** – Gweithgaredd Naturiaethwr

***Guides*** – Anifail Prysur, Gwyddoniaeth

***Sgowtiaid*** - Gweithgaredd Naturiaethwr, Gweithgaredd Cadwraeth Fyd-eang

## Gwarcheidwaid Gwyrdd

Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn gyfle i'r plant archwilio a chael eu hysbrydoli gan y peth hynaf yn y safle claddu – y goeden Ywen. Maent yn annog plant i fynegi eu teimladau personol tuag atynt. Mae plant hefyd yn dysgu ffeithiau hwyliog a diddorol ac ambell chwedl ddiddorol am goed Yw ar yr un pryd. Gallwch chwilio ar wefan yr Ancient Yew Group, www.ancient-yew.org i weld a oes coeden Ywen hynafol yn eich safle claddu chi neu ar safle gerllaw.

***Canlyniadau Dysgu***

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Adnabod ac enwi'r goeden Ywen

### Adnoddau

Papurau nodiadau gludiog, bag neu dwb casglu

***Ffeil Ffeithiau Rhyfeddol am Goed Yw***

***Templed Synhwyrau Rhywbeth Arbennig***

***Ffrâm Ysgrifennu Coed Yw***

### Cwestiynau Allweddol

***Pam mae cymaint o goed Yw mewn safleoedd claddu?***
***Pam mae cymaint o chwedlau am goed Yw?***

### Cyflwyniad

Casglwch o amgylch coeden Ywen yn y safle claddu a rhannu rhai ffeithiau diddorol amdanynt gyda'r plant gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y pecyn hwn. Gofynnwch i'r plant siarad gyda'i gilydd am y goeden Ywen a defnyddio eu synhwyrau i gyd i'w disgrifio. Gallai'r plant lenwi'r templed ***synhwyrau – rhywbeth arbennig*** gyda'u syniadau. Mae'r plant yn ysgrifennu un gair ar bapur nodiadau gludiog neu ddarn o bapur i ddisgrifio'r goeden Ywen yn y ffordd orau, neu eu teimladau amdani. Casglwch y geiriau i mewn i'r bag ac esboniwch y byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer ysgrifennu prosiectau yn yr ystafell ddosbarth. Gellid ymestyn hyn i annog y plant i ysgrifennu cymariaethau a throsiadau.

### Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

***1. Rhannu*** - straeon a cherddi am chwedlau gwerin y goeden Ywen.

***2. Archwilio*** – rhoi cyfle i'r plant archwilio'r goeden – tynnu lluniau ohoni gyda chamera a braslunio o sawl ongl wahanol.

### Sesiwn i Bawb

Ydi'r plant yn gallu dyfeisio eu stori eu hunain i'w rhannu am pam mae'r goeden Ywen hynafol yno a beth y mae wedi'i weld yn ystod ei hoes?

### Yn Ôl yn yr Ysgol

***Ysgrifennu Cyffrous***

- Gan ddefnyddio'r geiriau, y ffotograffau a'r brasluniau sydd wedi'u casglu yn y maes, gwnewch gerdd acrostig gyda'r dosbarth cyfan am y 'Goeden Ywen', i gynnwys yr holl bethau y maent wedi dysgu amdanynt.
- Ysgrifennwch chwedl werin gyda choeden Ywen yn ganolog iddi. Gallai'r goeden Ywen fod yn lleoliad neu'n brif gymeriad.

Mae gan BBC Class Clips (www.bbc.co.uk/learningzone/clips) sawl clip byr am y goeden Ywen y gellid eu rhannu yn yr ystafell ddosbarth.



# Ffeithiau Rhyfeddol

## Coed Yw Cysegredig

Mae tri chwarter y coed Yw hynafol ym Mhrydain i'w gweld mewn mynwentydd.

## Gwirioni ar saethau hir!

Am 300 o flynyddoedd, roedd coed Yw ledled Ewrop yn cael eu torri ar raddfa enfawr. Pam?

I wneud saethau hir!

Roedd pren coed Yw yn werthfawr iawn i wneud yr arfau rhyfel yma.

Yn y canol oesoedd, cafodd llawer o goed Yw eu symud o gefn gwlad gan fod y dail yn wenwynig i anifeiliaid.

Yn fwy diweddar, mae mwyafrif y coed Yw yng Ngogledd America ac Asia wedi cael eu dinistrio am y cyfansoddion gwrth-ganser sydd yn y rhisgl.

Mae'r coed Yw mewn mynwentydd wedi goroesi.

## Gwasgaru hadau

Mae hadau coed Yw yn wenwynig ac maent y tu mewn i'r aeron cochion.

Mae'r aeron yn goch er mwyn denu adar i'w bwyta, gan gynnwys y ddrudwen, y fronfraith, brych y coed, sgrech y coed, ffesant, aderyn du a'r robin.

Mae adar yn taflu'r hadau i fyny neu'n eu pasio heb eu cnoi yn eu llwybr treulio.

Mae'r broses hon yn tynnu'r aeron cochion a hefyd yn gwasgaru'r hadau – yn barod i dyfu.

## Oeddech chi'n gwybod?

Credir fod rhai coed Yw mor hen â'r pyramidiau!

Mewn mynwent, efallai mai'r Ywen yw'r peth hynaf yno.

Roedd rhai mynachod o'r oesoedd cynnar yng Nghymru ac yn Iwerddon yn byw mewn coed Yw gwag, a oedd yn gartref ac yn gysgod iddyn nhw, a hefyd yn lle i addoli.

Coeden Ywen oedd y goeden Nadolig wreiddiol yn y Swistir a'r Almaen.

## Waw! Mae coed Yw yn arbennig!

Mae rhagor o wybodaeth am eich coed Yw lleol chi ar gael yn www.ancient-yew.org .

# RHYWBETH ARBENNIG











Gofalu am Erw Duw

Gofalu am Erw Duw